OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 300

# Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) 2003

## RHAN 5

## PROFION

**Profion allyriad yn y fan a'r lle a phrofion gohiriedig**

**9.**—(1) Gall person awdurdodedig ei gwneud hi'n ofynnol i berson sy'n gyrru cerbyd modur ar ffordd ac sydd mewn, neu sydd ar fin pasio drwy, neu sydd wedi pasio drwy, ardal rheoli ansawdd aer yr awdurdod priodol ganiatáu i'r cerbyd y mae'r person hwnnw yn ei yrru i fod yn ddarostyngedig i brawf at y diben o benderfynu p'un a oes tramgwydd allyriad yn cael ei gyflawni neu wedi'i gyflawni.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r prawf y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei gyflawni ar unwaith gan berson awdurdodedig.

(3) Gall person awdurdodedig, yn hytrach na bwrw ymlaen ar unwaith i gynnal y prawf —

(a) ei gwneud hi'n ofynnol bod person awdurdodedig yn cyflawni'r prawf a hynny mewn man ac ar adeg (heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd gofyniad paragraff (1) ei osod) y bydd y person awdurdodedig yn eu pennu wrth osod y gofyniad hwnnw; neu

(b) ei gwneud hi'n ofynnol i'r person y mae gofyniad paragraff (1) yn cael ei osod arno i gyflwyno'r cerbyd i gael ei archwilio o dan adran 45 (profion i weld a yw cerbydau mewn cyflwr boddhaol) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

(4) Wrth osod gofyniad o dan baragraff (3)(b), rhaid i berson awdurdodedig hefyd —

(a) ei gwneud hi'n ofynnol i yrrwr y cerbyd dan sylw gyflwyno, mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw, naill ai dystysgrif a ddyroddwyd o dan adran 45(2)(b) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 neu hysbysiad methiant; a

(b) bennu'r canlynol mewn perthynas â chyflwyno'r dystysgrif neu hysbysiad —

(i) y dyddiad, a'r amser;

(ii) y lleoliad ar gyfer ei chyflwyno; a

(iii) y person y mae i'w chyflwyno iddo

(5) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (4)(b) fod o fewn 21 diwrnod i'r diwrnod pan fo'r person awdurdodedig yn gosod y gofyniad o dan baragraff (3)(b).

(6) Ni chaiff gofyniad i gyflwyno tystysgrif neu hysbysiad gael ei drin fel gofyniad a fodlonwyd oni bai fod dyddiad dyroddi'r ddogfen a gyflwynwyd yn cyfateb i'r dyddiad pan osodwyd y gofyniad neu wedi hynny.

(7) Bydd person sy'n methu â chydymffurfio â —

(a) gofyniad paragraff (1), neu

(b) gofyniad paragraff (3)(a) neu 4(a),

yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Yn y rheoliad hwn —

ystyr "gofyniad paragraff (1)" ("*paragraph (1) requirement*") yw gofyniad a osodir drwy rinwedd paragraff (1) o'r rheoliad hwn; ac

ystyr "hysbysiad methiant" ("*notice of failure*") yw hysbysiad, o dan adran 45(4) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, bod tystysgrif brawf yn cael ei wrthod nad yw'r seiliau a nodir fel seiliau pam y bu i'r cerbyd fethu'r archwiliad o dan yr adran honno yn cynnwys eitem 28 ym mharagraff 3(b) o Atodlen 2 i Reoliadau Cerbydau Modur (Profion) 1981(**1**) (gan gynnwys yr eitem honno fel y caiff ei chymhwyso fel y crybwyllir ym mharagraffau 3A i 6 o'r Atodlen honno).

### Dyroddi hysbysiadau cosbau penodedig: tramgwydd allyriad

**10.** Pan —

(a) fo prawf ar gerbyd wedi'i gyflawni fel y crybwyllwyd ym mharagraff (2) neu (3)(a) o reoliad 9; a

(b) o ganlyniad i'r prawf hwnnw bod person awdurdodedig yn ystyried bod tramgwydd allyriad wedi'i gyflawni gan y person sy'n defnyddio'r cerbyd hwnnw,

gall y person awdurdodedig, yn unol â Rhan 7, ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i'r person hwnnw.

### Cyflenwi gwybodaeth at ddibenion Rhan 5

**11.**—(1) Mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau o dan y Rhan hon, gall person awdurdodedig ei gwneud hi'n ofynnol i yrrwr cerbyd y mae gofyniad o dan reoliad 9(1) wedi'i osod mewn perthynas ag ef ddatgelu i'r person awdurdodedig —

(a) enw a chyfeiriad y gyrrwr;

(b) dyddiad geni y gyrrwr; ac

(c) os nad y gyrrwr yw'r person y mae'r cerbyd wedi'i gofrestru yn ei enw o dan Ddeddf Trethu a Chofrestru 1999(**2**) ar yr adeg pan osodwyd y gofyniad, enw'r person hwnnw.

(2) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad o dan baragraff (1) yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(**1**) O.S. 1981/1078; amnewidiwyd Atodlen 2 gan O.S. 1991/2229 a'i diwygio gan O.S. 1992/3160 a 1998/1672.
(**2**) 1994 p.22.